



YSGOL I.D. HOOSON

18.12.20

Annwyl Riant / Warchodwr,

Hoffwn ddiolch ichi am eich cefnogaeth barhaus yn ystod y tymor anodd hwn. Mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn ac rydym yn gwerthfawrogi'r effaith mae'r sefyllfa yn ei chael ar ein bywydau i gyd. Yn anffodus, wrth inni ddechrau gwneud trefniadau ar gyfer y Nadolig, mae'r sefyllfa'n newid yn gyflym. Fel fyddwch wedi ei weld ar y newyddion, mae datganiad cenedlaethol wedi ei wneud ynglŷn a dechrau'r tymor newydd.

O ystyried y darlun sy'n prysur newid, mae Awdurdodau Lleol wedi cael eu cynghori gan Lywodraeth Cymru y bydd angen hyblygrwydd wrth ddechrau'r tymor, yn enwedig gan fod disgwyl i niferoedd achosion godi yn dilyn cyfnod y Nadolig. O ganlyniad, rydym wedi ystyried y ffordd orau a mwyaf diogel i drefnu dechrau'r tymor. Mae hyn wedi ei wneud ar y cyd a'r Awdurdod Lleol a'r Corff Llywodraethol.

Fel gwyddoch, mae gennym ddiwrnod hyfforddiant ar ddechrau'r tymor sef dydd Llun Ionawr 4ydd. Bydd y tymor newydd i'r palnt yn dechrau ar ddydd Mawrth y 5ed a bydd dysgu yn digwydd ar lein am wythnos gyntaf y tymor. Mae'r penderfyniad hwn wedi ei wneud ar sail cyd-destun lleol a phryderon ynglŷn a'r sefyllfa bosibl ar ôl gwyliau'r Nadolig. Bydd darpariaeth wyneb yn wyneb ar gael i blant **gweithwyr allweddol rheng flaen** a disgyblion sy'n cael eu hystyried yn fregus ar y trydydd dydd o agor, sef dydd Iau Ionawr 7fed, ac ar gyfer plant oed Derbyn i flwyddyn 6. Fodd bynnag, deallir y bydd angen darpariaeth ar gyfer rhai ar y ddau ddiwrnod cyntaf (5ed a 6ed o Ionawr) os ydynt yn blant i weithwyr rheng flaen allweddol. Os oes arnoch angen darpariaeth arnoch a'ch bod methu a gwneud unrhyw drefniadau eraill, cysylltwch a ni erbyn 12.00 ar ddydd Llun, y 4ydd o Ionawr er mwyn trafod y trefniadau angenrheidiol. Dylech wneud hyn drwy e.bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

COFIWCH DIM OND OS NAD OES UNRHYW DREFNIADAU POSIB ERAILL AR GAEL AR GYFER GOFAL PLANT Y DYLID DEFNYDDIO'R GWASANAETH HWN. Prif bwrpas y trefniadau sydd wedi'i cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yw i leihau cyswllt gyda eraill er mwyn ceisio dod a lledaeniad y firws dan reolaeth, ac felly byddai'n fwy diogel i gadw'ch plentyn o'r ysgol am y cyfnod hwn, er mwyn osgoi cyswllt gyda staff a phlant eraill.

Disgwylir y bydd pob disgybl yn ôl yn yr ysgol i gael gwersi wyneb yn wyneb ar ddydd Llun yr 11eg o Ionawr, 2021, os fydd yn ddiogel i hynny ddigwydd, a byddwn yn cysylltu a chi yn fuan yn ystod cychwyn y tymor i rannu gwybodaeth am drefniadau'r wythnos ganlynol.

Mae'r sefyllfa yn anodd a phryderus i bob un ohonom ac rwyf yn wir ymddiheuro am y newidiadau diweddar hyn, ac am orfod eich hysbysu o hyn cyn y Nadolig, ond roeddwn yn meddwl y byddai cael eich hysbysu yn gynt o'r trefniadau yn rhoi mwy o amser i chi fel teuluoedd roi trefniadau gofal plant yn ei lle. Mae'r sefyllfa o ran y pandemig yn parhau i fod yn un ddifrifol, ac mae'r camau hyn yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch pawb. Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel dros y Nadolig.

Yn gywir,
Rhodri Jones
Pennaeth/Headteacher